**AGENDA ITEM: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17$^{eg}$ Mawrth 2008**

## PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

**Adroddiad gan Ian Miller,
Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I hysbysu'r Pwyllgor am sefydliad Panel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol â'r goblygiadau dilynol i awdurdodau tân ac achub; ac i gytuno ar ymateb i'w lythyr ymgynghorol cyntaf.

### Cefndir

**2.** Ar 1af Ionawr 2008, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu'r panel annibynnol i adolygu lwfansau cynghorwyr.

**3.** Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi cael ei sefydlu o dan ddarpariaethau wnaed yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (y Rheoliadau). Adroddwyd am ddarpariaethau'r Rheoliadau yma, a sut y maent yn gymwys i awdurdodau tân ac achub, i'r Awdurdod eisoes yn ei gyfarfod ar 18fed Mehefin 2007. Yn dilyn trafodaeth ar y Rheoliadau, fe gymeradwyodd yr Awdurdod ddiwygiadau i'w 'Gynllun ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau'.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Fel yr adroddwyd i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2007, byddai'r Rheoliadau yn dod i rym mewn dau gam. Daeth y cam cyntaf i rym ar 1 Mehefin 2007, a'r ail gam yn dod i rym ar ddiwedd 2008.

**Gwybodaeth**

**5.** Mae sefydlu'r Panel, sy'n gorff parhaol ac yn annibynnol o lywodraeth leol a chanolog, gyda'i aelodaeth yn cael ei adolygu pob pedair blynedd, yn gweld cychwyn y broses o gyflawni ail ran y Rheoliadau.

**6.** I gychwyn, rhaid i'r Panel ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r math a'r lefel o lwfansau sydd ar gael i gynghorwyr sir a bwrdeistref sirol. Bydd yr adolygiad yn cynnwys edrych ar y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau sy'n denu Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig, y dyletswyddau allai ddenu y Lwfans newydd ar gyfer Aelodau Cyfetholedig, a phennu lefel uchafswm y lwfansau sy'n daladwy mewn cysylltiad â Lwfans Sylfaenol, Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig, lwfans gofal, lwfans teithio a chynhaliaeth, a Lwfansau Aelodau Cyfetholedig. Mae gan y Panel y pwerau i bennu gwahanol uchafsymiau ar gyfer gwahanol gynghorau ac, yn achos Lwfansau Cyfrifoldebau Arbennig a Chyfetholedig gwahanol uchafsymiau ar gyfer cyfrifoldebau a dyletswyddau gwahanol. <u>Nid</u> oes gan y Panel bwerau uniongyrchol mewn cysylltiad â lwfansau cadeirydd, is-gadeirydd nac aelodau o awdurdodau tân oherwydd eu bod yn cael eu llywodraethu gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau o Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004. Ni all y Panel chwaith wneud unrhyw argymhellion am allu aelodau i gael pensiynau mewn perthynas â lwfansau awdurdod tân.

**Adroddiadau'r Panel**

**7.** Mae'r Rheoliadau yn nodi fod rhaid i'r Panel, erbyn 31 Gorffennaf 2008, gyhoeddi 'Adroddiad Cychwynnol. Yn ei 'Adroddiad Cychwynnol', bydd y Panel yn pennu'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau allai ddenu Lwfansau Cyfrifoldebau Arbennig a Lwfansau ar gyfer Aelodau Cyfetholedig, ynghyd â lefel uchafswm y lwfansau a restrir ym mharagraff 6 uchod.

**8.** Wrth berfformio ei swyddogaethau, gall y Panel wneud cais am wybodaeth neu gyngor gan unrhyw gorff neu berson. Wrth gynhyrchu ei 'Adroddiad Cychwynnol', rhaid i'r Panel ystyried unrhyw gynrychioliad a dderbynnir gan 'awdurdodau' mewn ymateb i'r ymarfer. Er, at ddiben Rheoliadau 2007, fod y diffiniad o 'awdurdodau' wedi ei gyfyngu i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol, ac mai'r unig reidrwydd yw i'r Panel ystyried eu cynrychioliadau hwy, mae ei lythyr ymgynghori (atodiad 2) yn gwahodd cynrychioliadau oddi wrth awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol fel rhan o'r ymarferiad 'Adroddiad Cychwynnol'.

**9.** Yn dilyn cynhyrchu ei 'Adroddiad Cychwynnol', bydd yn rhaid i'r Panel gynhyrchu 'Adroddiad Blynyddol' fydd yn pennu uchafswm y cynnyddiadau yn y lwfansau. Fel ac ar gyfer yr 'Adroddiad Cychwynnol' bydd gan y Panel y gallu i bennu lefelau gwahanol o uchafsymiau uwchraddio ar gyfer gwahanol gynghorau. Rhaid i'r 'Adroddiad Blynyddol' gael ei gynhyrchu erbyn 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi h.y. bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2010/11 ac felly, rhaid ei gynhyrchu erbyn 31 Rhagfyr 2009.

**Adroddiadau'r Panel** *(parhad)*

**10.** Yn dilyn cynhyrchu ei 'Adroddiad Cychwynnol', ac yn ogystal â'r 'Adroddiadau Blynyddol, mae gan y Panel y pwerau i gynhyrchu 'Adroddiadau Atodol' os yw'n ystyried bod angen gwneud hynny. Drwy'r 'Adroddiadau Atodol', gall y Panel ymateb i geisiadau penodol gan gynghorau sir neu fwrdeistref sirol ar faterion sy'n ymwneud â lwfansau ac uchafsymiau y lwfansau sy'n daladwy.

**11.** Rhaid i'r Panel anfon copi o bob adroddiad at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Wedyn, rhaid i'r Cynulliad ddarparu pob cyngor sir a bwrdeistref sirol, Awdurdod Tân ac Achub ac Awdurdod Parc Cenedlaethol gyda chopi o'r Adroddiadau Cychwynnol a Blynyddol. Yn achos 'Adroddiadau Atodol', rhaid i Lywodraeth y Cynulliad anfon copi o'r adroddiadau hyn i'r cyngor sir neu gyngor fwrdeistref sirol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddo ac i unrhyw awdurdod tân ac achub ac/neu Awdurdod Parc Cenedlaethol o fewn ardal yr awdurdod sy'n destun yr adroddiad hwnnw.

**Effaith ar Awdurdodau Tân ac Achub**

**12.** Oherwydd y fformiwla sy'n cyfrifo Lwfans Awdurdod Tân a Lwfansau Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân (sef fod yr uchafswm o gynnydd a ganiateir yn gyfartaledd o'r cynnydd yn y lwfansau cyfatebol yn yr awdurdodau cyfansoddol) bydd darganfyddiadau'r Panel yn cael effaith anuniongyrchol ar awdurdodau tân ac achub.

**Lwfans Aelodau Cyfetholedig**

**13.** Mae Rheoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth i awdurdodau tân ac achub dalu Lwfans Aelodau Cyfetholedig i aelodau na chafodd eu hethol ac sydd â hawl i bleidleisio, megis aelodau annibynnol o'u Pwyllgorau Safonau. Daw'r Lwfans yma'n daladwy bedwar mis yn dilyn y dyddiad fydd Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn 'Adroddiad Cychwynnol' y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol h.y. yn hwyr yn hydref 2008, gan dybio fod yr Adroddiad yn ymddangos ym Mehefin/Gorffennaf. Wrth benderfynu ar y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau fydd yn denu Lwfansau Aelodau Cyfetholedig i fod yn daladwy i aelodau annibynnol o'u Pwyllgorau Safonau, rhaid i awdurdodau tân ac achub ystyried y materion a bennir gan y Panel mewn perthynas â'r lwfansau cyfatebol a delir gan gynghorau cyfansoddol yr awdurdod. Hefyd, os fydd awdurdodau tân ac achub yn penderfynu dyfarnu Lwfansau Aelodau Cyfetholedig i aelodau annibynnol eu Pwyllgorau Safonau, ni all uchafswm Lwfans yr Aelod Cyfetholedig fod yn uwch na chyfartaledd y symiau a delir gan y cynghorau cyfansoddol i'w aelodau cyfetholedig hwy.

**Ymateb i'r llythyr ymgynghorol**

**14.** Tra bod y llythyr yn nodi'r 14 Mawrth fel y dyddiad cau i dderbyn ymatebion, rydym ni wedi cytuno gyda gweinyddwyr y Panel fod modd i'r Awdurdod Tân gyflwyno ymateb yn dilyn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth. Mae'r ymateb drafft (atodiad 1) yn dadlau am ymagwedd gyffredin ar gyfer lwfansau gofal, teithio ac aelodau cyfetholedig sy'n aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau, oherwydd nad oes rheswm amlwg pam y dylid gosod uchafsymiau gwahanol ar gyfer gwahanol cynghorau mewn cysylltiad â lwfansau o'r fath. Tra nad oes gan y Panel bwerau mewn perthynas â phensiynau ar gyfer lwfansau awdurdod tân, mae'r ymateb drafft yn codi'r angen am ddeddfwriaeth i ganiatáu'r posibilrwydd o bensiynau o'r fath. Mae hefyd yn

**Ymateb i'r llythyr ymgynghorol** *(parhad)*

awgrymu y dylid dod a rheolaeth lwfansau awdurdod tân o fewn yr un gyfundrefn â'r un sy'n gymwys i lwfansau delir gan gynghorau, er diben ymagwedd gyson.

**Argymhellion**

**15.** Fod:

**15.1** aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd;

**15.2** cymeradwyo'r ymateb drafft yn atodiad 1; ac

**15.3** yn dilyn cyhoeddi 'Adroddiad Cychwynnol' y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn ddibynnol ar ei argymhellion, bod yr Awdurdod yn ystyried dyfarnu Lwfans Cyfetholedig i Aelodau annibynnol ei Bwyllgor Safonau a'r lefel o lwfans fydd yn daladwy.

**Atodiad 1**

**PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

**Ymateb drafft i lythyr Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig 11 Chwefror**

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i lythyr ymgynghori'r Panel dyddiedig 11 Chwefror.

Mae'r Awdurdod yn credu dylai'r un uchafswm fod yn gymwys i'r holl gynghorau mewn perthynas â

- lwfans gofal
- lwfans teithio a chynhaliaeth
- lwfans i aelodau cyfetholedig, cyn belled ag y bo'n gysylltiedig ag aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau.

Does dim rheswm amlwg pam fod uchafsymiau gwahanol yn cael eu gosod ar gyfer y lwfansau yma yng nghyd-destun cynghorau gwahanol.

Mae'r Panel wedi edrych am farnau ar ba un ai ddylid gwneud unrhyw newidiadau i drefniadau pensiwn presennol aelodau etholedig o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae'r Awdurdod Tân yn ailadrodd yr arsylwad mae wedi gwneud yn aml i Lywodraeth Cynulliad Cymru dros nifer o flynyddoedd, sef y dylid newid y ddeddfwriaeth i ganiatáu'r posibilrwydd fod lwfansau sy'n cael eu talu i gynghorwyr sy'n aelodau o awdurdod tân fod yn bensiynadwy. Byddem yn croesawu cefnogaeth y Panel fod yr anghysondeb yma'n cael ei diddymu cyn gynted ag y bo modd.

Dylid ystyried mabwysiadu ymagwedd gysylltiedig ar gyfer lwfansau ar draws y teulu llywodraeth leol, fel mai'r Panel fyddai'n gosod yr uchafsymiau penodol ar gyfer lwfansau awdurdodau tân yn hytrach na'u bod yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth ar wahân.